



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gofal Rhagweithiol i Oedolion ag Anghenion Cymhleth a Phobl Hŷn sy'n byw gydag Eiddilwch yn y Gymuned

**Fframwaith Canllawiau Cenedlaethol
ar gyfer Gofal Integredig**

Mynegai

Crynodeb Gweithredol	2
1.0 Cyflwyniad	3
2.0 Cyd-destun a Diffiniadau	4
3.0 Ffactorau Galluogi ar gyfer Gofal Rhagweithiol i Oedolion ag Anghenion Cymhleth	6
4.0 Gwelliant Parhaus: Canlyniadau a Mesurau a Awgrymir	12
Atodiad Un.....	14
Atodiad Dau.....	15

Crynodeb Gweithredol

Fel rhan o raglenni cenedlaethol a pholisi, cydnabyddir bellach bod darparu Gofal Rhagweithiol yn flaenoriaeth bwysig i'w chyflawni er mwyn gwella canlyniadau i'r boblogaeth, lleihau anghydraddoldebau a gwneud y system yn gadarnach fel yr amlinellir yn Cymru Iachach.

Mae tystiolaeth amlwg i ddangos bod dulliau gofal rhagweithiol yn cael eu defnyddio fel rhan o'n systemau gofal cymunedol integredig yng Nghymru. Mae'r dulliau hyn, fodd bynnag, yn amrywiol ac yn anghyson a byddai'n fuddiol pe bai diffiniad a safonau ymarfer clir ar gael ledled Cymru.

Nod y fframwaith hwn yw rhoi'r eglurder hwn yn benodol ym maes rheoli oedolion sy'n byw gyda chymhlethdod a phobl hŷn sy'n byw gydag eiddilwch yn rhagweithiol. Gan ddefnyddio sail dystiolaeth a adolygwyd gan gymheiriaid a'r Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sy'n byw gydag Eiddilwch, mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r ffactorau galluogi a'r cydrannau allweddol sydd eu hangen i reoli carfanau sy'n wynebu 'risg gynyddol' a 'risg uchel' yn rhagweithiol ac yn effeithiol.

Rhagwelir y bydd y canllawiau hyn yn werthfawr i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w helpu i roi arferion gorau ar waith er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl ar ganlyniadau i bobl a'r system iechyd a gofal.

Darparu Gofal Rhagweithiol i Oedolion ag Anghenion Cymhleth (gan gynnwys Eiddilwch); Fframwaith ar gyfer Darparu'n Rhanbarthol

Themâu	Gofynion / Ffactorau galluogi
Cyd-destun a Diffiniadau	Pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch: datganiad ansawdd integredig LLYW.CYMRU Cymru Iachach Model Gofal Sylfaenol i Gymru Fframwaith Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol: Ymhellach, Yn Gyflymach Mwy na geiriau Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Presgripsiynu Cymdeithasol Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng: llawlyfr polisi ar gyfer 2021 i 2026 LLYW.CYMRU National Community Nursing Specification v1 Jan 23.pdf Llyfryn Her 50 Diwrnod:

	 2024 50 Day Integrated Care Winte
Gofal Rhagweithiol i Oedolion sy'n byw gydag Anghenion Cymhleth	Seilwaith Digidol a Data Cenedlaethol Gweithlu hyblyg a galluog Atebolrwydd clir a gwneud penderfyniadau ar y cyd
Egwyddorion craidd a safonau cysylltiedig ar gyfer gofal rhagweithiol i oedolion ag anghenion cymhleth	Y boblogaeth ac adnabod achosion Asesu cyfannol Cynllunio gofal ar gyfer y dyfodol Gwaith amlbroffesiynol; Parhad a chydgyssylltu

1.0 Cyflwyniad

Mae'r fframwaith hwn yn helpu i gyflawni 'Cymru Iachach'¹ a'i weledigaeth ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig sy'n helpu i ddarparu systemau gofal seiliedig ar le sy'n canolbwyntio ar y dinesydd i ddiwallu angen penodol ymhlith y boblogaeth, gan wella eu canlyniadau llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd drwy reoli iechyd y boblogaeth mewn ffordd sy'n seiliedig ar ddata.

Caiff Rheoli Iechyd y Boblogaeth ei ddiffinio fel a ganlyn:

“dull sy'n gwella iechyd y boblogaeth drwy gynllunio ar sail data a darparu gofal rhagweithiol i sicrhau'r effaith fwyaf ar iechyd a llesiant y boblogaeth. I wneud hyn, defnyddir setiau data cysylltiedig i segmentu, haenu a modelu'r carfannau lleol 'mewn perygl' a 'risg cynyddol' sydd yn eu tro yn cael eu defnyddio i ddylunio, targedu a phersonoli ymyriadau i ddarparu gofal rhagweithiol a chyffredinolïaeth gymesur i leihau anghydraddoldebau iechyd”.

Mae'r fframwaith hwn yn ategu'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru a chyfrifoldebau cysylltiedig ar lefel clwstwr / pob clwstwr / ardal ddaearyddol awdurdod lleol.

Cafodd Gofal Rhagweithiol ei gyflwyno a'i gydnabod fel amcan flaenoriaeth i Fyrddau Iechyd a'u partneriaid rhanbarthol ym mis Hydref 2023 mewn ymateb i Ddatganiad o Fwriad y Gweinidog 'Meithrin Gallu drwy Ofal Cymunedol; Ymhellach, Yn Gyflymach'. Amlinellwyd mwy o fuddsoddiad a disgygliadau mewn perthynas â gofal rhagweithiol ym mis Hydref 2024 fel rhan o'r Her 50 Diwrnod ac, yn benodol, Ymyriadau 4, 6, 7 a 10 (rheoli gofal rhagweithiol, adnabod dirywiad yn gynnar a chydgyssylltu ymyriadau cynnar i reoli argyfwng gan gynnwys cwympiadau). Mae'n amlwg bod cynnydd yn cael ei wneud

1

yn y rhan hon o'r system ond mae gwahaniaethau i'w gweld o ran dulliau gweithredu cwrmpas a threfniadau monitro effaith.

Ar gyfer gaeaf 2025 / 2026, mae'n ofynnol i bartneriaid rhanbarthol roi'r canllawiau hyn ar waith mewn perthynas â'r '0.5% uchaf' o'r boblogaeth a nodwyd ganddynt sy'n wynebu'r risg fwyaf o ofal brys, fan lleiaf. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio, wrth reoli anghenion poblogaethau â chyflyrau cynyddol, nad argymhellir y dylid canolbwyntio ar boblogaethau 'risg uchel' yn unig. Drwy atal a rheoli'n rhagweithiol garfannau 'risg gynyddol' sydd â risgiau cymedrol neu isel, gellir rhoi ymyriadau ar waith yn gynharach a chyfrannu at ganlyniadau tymor hwy i'r unigolyn a'r system. Dylai partneriaid rhanbarthol ystyried hyn hefyd wrth feddwl am gyfansoddiad eu '0.5% uchaf'.

Cydnabyddir bod angen rhywfaint o hyblygrwydd i ystyried y gofynion gwahanol sy'n bresennol yn ardaloedd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Nod y Fframwaith hwn yw rhoi canllawiau i'r Byrddau Iechyd a'u partneriaid rhanbarthol i'w helpu i roi arferion gorau ar waith yn y maes hwn er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson a chael yr effaith fwyaf bosibl ar ganlyniadau i bobl a'r system iechyd a gofal.

2.0 Cyd-destun a Diffiniadau

2.1 Mae Gofal Rhagweithiol yn derm a ddefnyddir yn gynyddol i ddisgrifio ymyriadau sy'n canolbwyntio ar gadw pobl yn iach drwy roi pwyslais ar atal. Mae'n cynnwys y gweithgareddau a'r ymyriadau hynny sy'n helpu i wella iechyd a llesiant drwy gynyddu hunanddibyniaeth, gallu a gwydnwch unigolion, y bobl sy'n helpu i ofalu amdanynt a chymunedau lleol.

Er bod y derminoleg benodol ym maes 'Gofal Rhagweithiol' i'w gweld yn bennaf mewn polisïau a strategaethau sy'n ymwneud â gofal iechyd, mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE)² hefyd yn nodi bod dulliau rhagweithiol ym maes iechyd a llesiant yn hollbwysig er mwyn gwreiddio trefniadau atal mewn gofal cymdeithasol a chynyddu annibyniaeth a lleihau neu ohirio'r angen am wasanaethau gofal a chymorth ffurfiol.

2.2 Mae oedolion ag anghenion cymhleth yn derm a ddefnyddir i gyfeirio at y boblogaeth gynyddol sy'n byw gyda heriau corfforol a / neu wybyddol gweithredol cynyddol a gaiff eu priodoli i gyffredinrwydd cynyddol amlafiachedd ac eiddilwch clinigol sy'n gysylltiedig ag oedran. Cydnabyddir yn eang mai'r hyn sy'n bwysig i'r boblogaeth hon yw eu bod yn cael eu helpu i fyw bywydau ystyrlon a bodlon yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. I gyflawni'r canlyniad hwn, rhaid cael cydnabyddiaeth gan y system iechyd a gofal:

- Bod y boblogaeth hon yn dueddol o wynebu'r canlynol:

² [Prevention in social care - SCIE](#)

- Gwaethygiad yn eu cyflwr a dirywiad gweithredol ac aciwtedd cynyddol cysylltiedig;
- Tebygolrwydd uwch y bydd angen ymyriad gofal cymdeithasol brys arnynt;
- Tebygolrwydd uwch y bydd angen gofal brys a gofal mewn argyfwng arnynt mewn perthynas â'u hiechyd;
- Dirywiad yn eu gallu corfforol a dirywiad gweithredol cyffredinol (corfforol a gwybyddol) o ganlyniad i anweithgarwch estynedig a chynnydd y gellir ei osgoi mewn adnoddau iechyd a gofal cymdeithasol
- Sy'n golygu y gellir nodi newidiadau sydyn mewn gallu corfforol a / neu wybyddol yn gynnar ac ymyrryd yn gynnar er mwyn lliniaru anghenion cynyddol a gofynion gofal a chymorth hirdymor.

Cafodd Datganiad Ansawdd Integredig ar gyfer Pobl Hŷn sy'n byw gydag Eiddilwch ei ddatblygu gan Grŵp Cyfeirio Arbenigol o randdeiliaid iechyd a gofal cymdeithasol a'i gyhoeddi ym mis Ionawr 2024 ([Pobl hŷn a phobl sy'n byw gydag eiddilwch: datganiad ansawdd integredig | LLYW.CYMRU](#)).

Mae'r Datganiad yn amlinellu nodweddion ansawdd system eiddilwch gymwys sy'n arwain at y canlyniadau gorau posibl i'r grŵp hwn o'r boblogaeth. Mae'r Datganiad yn canolbwyntio'n benodol ar eiddilwch fel cyflwr clinigol ond mae anghenion y grŵp hwn o'r boblogaeth yn golygu y gallai nodweddion ansawdd a chydrannau system ofal ar gyfer eiddilwch fod yn gymwys yn rhesymol i oedolion sy'n byw gydag anghenion 'cymhleth' sy'n ymwneud ag anghenion cymdeithasol, seicolegol a chorfforol (e.e. anabledd, amlafiachedd, amhariad synhwyraidd).

2.3 Gofal Rhagweithiol i Oedolion sy'n byw gydag Anghenion Cymhleth.

Mae'r Datganiad Ansawdd Integredig yn amlinellu'r pwyntiau perthnasol canlynol:

- Mae cyflyrau hirdymor, amlafiachedd ac eiddilwch yn gynyddol eu natur.
- Mae anghenion yr unigolyn yn mynd yn fwyfwy cymhleth wrth i'r cyflwr waethygu ac felly bydd angen mwy o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol arno.
- Mae llawer o oedolion sy'n byw gydag anghenion cymhleth yn dibynnu ar ofal a chymorth di-dâl gan berthnasau, eu cymdogion a'r gymuned ehangach. Gwyddom fod y math hwn o ofal a chymorth yn arwain at lefelau uwch o straen a phryder i ofalwyr di-dâl a thebygolrwydd uwch cysylltiedig y bydd eu hiechyd yn dioddef.
- Gydag ymwybyddiaeth a'r dulliau rheoli rhagweithiol gorau, gallwn ymyrryd yn gynnar pan fo cyflwr yn gwaethygu ac anghenion yn cynyddu, arafu unrhyw waethygiad ac, yn y pen draw, wella canlyniadau i'r unigolyn a gwneud y defnydd gorau o adnoddau iechyd a gofal cyfyngedig.
- Yn yr un modd, drwy ddefnyddio'r dulliau rheoli rhagweithiol gorau, gallwn roi cymorth amserol i ofalwyr di-dâl er mwyn lleihau'r effaith ar eu hiechyd.
- Mae'r dulliau rheoli gorau ar gyfer y boblogaeth hon yn dibynnu ar y canlynol:

- Asesiad amlbroffesiynol cynnar o'u hanghenion heterogenetig, gan gynnwys asesiadau gofalwyr;
- Rhoi ymyriadau ar waith sy'n lliniaru effeithiau andwyol y cyflwr ac amlinellu cynlluniau sy'n rhagweld newidiadau amrywiol a sydyn yn eu hanghenion;
- Cydnabyddiaeth amserol o newidiadau sydyn mewn anghenion cymdeithasol, seicolegol a chlinigol sydd wedi arwain at newid i allu corfforol neu alluedd meddyliol, fel dryswch newydd, cwymp, neu lai o allu i wneud pethau y maent yn gallu eu gwneud fel arfer neu risg uwch o ddiffyg maeth.
- Pan fo anghenion brys neu pan fo anghenion uwch yn dod i'r amlwg, hwyluso mynediad amserol at 'fodelau gofal canolraddol', gan gynnwys ailalluogi, adsefydlu a Gofal Cymunedol Uwch (dolen i'r egwyddorion) a Seibiant i Ofalwyr.

Felly, yng nghyd-destun y fframwaith hwn, caiff gofal rhagweithiol ei ddiffinio fel cymorth ac ymyriadau amlbroffesiynol cydgysylltiedig a phersonol sy'n sicrhau canlyniadau iechyd a llesiant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, drwy'r canlynol:

1. Gohirio dirywiad lle bo hynny'n bosibl; (amddiffyn llesiant ac annibyniaeth ac annog byw'n annibynnol);
2. Lleihau gwaethygiad y gellir ei osgoi mewn salwch, a thrwy hynny leihau'r defnydd o ofal sydd heb ei gynllunio, colli gallu (annibyniaeth) a galw uwch dilynol am ofal hirdymor.
3. Yn ogystal, mae tystiolaeth i ddangos y gall rheoli gofal a gynlluniwyd mewn ffordd ragweithiol drwy asesiadau cyn llawdriniaeth helpu i gynnig canlyniadau amgen i ymyriadau llawfeddygol a allai fod yn well i ddiwallu anghenion yr unigolyn ac, felly, wella ei ansawdd bywyd. Os mai ymyriad llawfeddygol yw'r canlyniad gorau, dylid cynnwys gwaith rhagsefydlu er mwyn gwella canlyniadau clinigol.

3.0 Ffactorau Galluogi ar gyfer Gofal Rhagweithiol i Oedolion ag Anghenion Cymhleth

Er mwyn darparu'r gofal rhagweithiol gorau, rhaid i sefydliadau partner (Partneriaethau Rhanbarthol) gydweithio i gyflawni Nod Cyffredin ar gyfer grŵp diffiniedig o'r boblogaeth.

Bydd gofal rhagweithiol yn amrywio'n lleol, yn dibynnu ar eu poblogaeth ddiffiniedig a'r modelau darparu gwasanaethau sydd ar waith yn barod.

Nodwyd tair ffactor sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarparu gofal rhagweithiol:

A. Digidol a Data

Dylid dylunio a darparu gofal rhagweithiol yn effeithiol ar sail seilwaith digidol cryf a data cysylltiedig a gaiff eu galluogi gan arbenigedd ym maes Rheoli Iechyd y Boblogaeth. Dylai'r safonau disgwyliedig gynnwys y canlynol:

- Cytuno ar adnodd segmentu digidol i Gymru gyfan a'i roi ar waith;
- Cofnod Gofal a Rennir sydd ar gael i'r unigolyn a phob darparwr iechyd a gofal awdurdodedig sy'n rhoi cymorth amlbroffesiynol i'r unigolyn;
- Gellir llunio adroddiadau cyson ar gynnydd ac effaith a'u gwerthuso yn erbyn y nodau a'r uchelgeisiau a rennir drwy gael canlyniadau lefel gwasanaeth, system a phoblogaeth y cytunwyd arnynt ac a gymeradwywyd yn genedlaethol a fframwaith mesurau sy'n perthyn i'r GIG a gofal cymdeithasol;
- Dull Cymru gyfan ym maes Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol a phrosesau sy'n sicrhau bod Cynlluniau Gofal ar gyfer y Dyfodol ar gael i'r unigolyn a'i berthnasau / gofalmwyr / eiriolwyr annibynnol enwebedig a'r gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol hynny sy'n rhan o'i ofal sydd wedi'i gynllunio a'i ofal sydd heb ei gynllunio.

Ar adeg llunio'r fframwaith, mae'r safonau Digidol a Data a amlinellir uchod yn flaenoriaeth genedlaethol ac wrthi'n cael eu datblygu. Yn y cyfamser, caiff Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu hannog yn gryf i ystyried dulliau rhanbarthol cyson o segmentu / haenu'r boblogaeth a Chynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol.

B. Gweithlu hyblyg

Mae gweithlu cryf, dibynadwy a chyson yn hollbwysig er mwyn darparu gofal rhagweithiol. Dylai'r safonau disgwyliedig gynnwys y canlynol:

- Caiff gwaith segmentu a haenu ei fodelu ar draws rhagolygon demograffig sy'n rhoi 'system ofal seiliedig ar le' i gynllunwyr a chomisiynwyr er mwyn sicrhau bod y gweithlu a seilwaith gwasanaethau yn cael eu datblygu 'mewn lle', a'u bod yn diwallu anghenion y boblogaeth nawr ac yn y dyfodol.
- Mae gan y gweithlu lefelau digonol o sgiliau ac mae capasiti ar gael i ddarparu gofal rhagweithiol 24/7 pan fo angen hynny.
- Mae'r tîm amlbroffesiynol sy'n darparu gofal rhagweithiol yn gweithredu gyda chymysgedd sgiliau a chapasiti digonol, yr hyfforddiant a'r arbenigedd cywir, a'r gallu i droi at broffesiynau neu wasanaethau eraill pan fo angen ac ymateb i anghenion poblogaeth leol;
- Cynllun gweithlu integredig (ar y cyd) i ddarparu gofal rhagweithiol a hyfforddiant priodol i staff. Caiff modelau Aseswyr Dibynadwy eu hystyried os bydd yn ddiogel ac yn briodol eu defnyddio.

C. Atebolrwydd clir a gwneud penderfyniadau ar y cyd

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sicrhau arweinyddiaeth weithredol ar y cyd ar draws sefydliadau partner. Dylai safonau gynnwys:

- Mae Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth wedi cael ei gynnal; ³
- Y Partneriaethau Rhanbarthol yn cytuno ar uchelgais (strategaeth), nodau a chanlyniadau a rennir ar gyfer poblogaeth ddiffiniedig yn seiliedig ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth;
- Mae cytundebau ar waith i wneud penderfyniadau ar y cyd ynghyd â phrosesau llywodraethu cysylltiedig;
- Bydd trefniadau llywodraethu yn ystyried y canlynol:
 - Arweinyddiaeth weithredol a gwaith ar y cyd i fonitro'r cynllun cyflawni a rennir (cynllun y rhaglen) a'i weithrediad (DS lle bo hynny'n briodol, bydd y cynllun cyflawni yn sicrhau cysondeb â rhaglenni cenedlaethol perthnasol e.e. Chwe Nod Gweithrediaeth y GIG ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol);
 - Cysondeb o ran comisiynu;
 - Contractio;
 - Trefniadau aseswyr dibynadwy;
 - *Trefniadau Interim Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol;

*DS mae egwyddorion cenedlaethol, safonau, adnoddau a thempledi ar gyfer Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru yn cael eu hystyried a'u datblygu ar hyn o bryd

Egwyddorion craidd a safonau cysylltiedig ar gyfer gofal rhagweithiol i oedolion ag anghenion cymhleth

Yn ôl y dystiolaeth mewn llenyddiaeth wedi'i hadolygu gan gymheiriaid ac ymarfer, mae 4 Egwyddor Graidd yn gysylltiedig â gofal rhagweithiol effeithiol a ddylai gael eu mabwysiadu gan Grwpiau Cynllunio Clwstwr Cyfan (PCPG) lleol a'u systemau gofal cysylltiedig sy'n seiliedig ar le. Mae'r adran isod yn amlinellu'r Egwyddorion Craidd hynny a Safonau perthnasol y byddem yn disgwyl i Bartneriaethau Rhanbarthol eu rhoi ar waith er mwyn darparu gofal rhagweithiol i oedolion ag anghenion cymhleth.

Wrth nodi'r Safonau, rydym wedi cydnabod cyfyngiadau cenedlaethol presennol mewn perthynas â'r ffactorau galluogi allweddol a amlinellir uchod. Mae'r cyfyngiadau hyn wedi cael eu cydnabod fel risgiau i ddarpariaeth effeithiol ac mae camau'n cael eu cymryd yn genedlaethol i liniaru'r risgiau hyn. Yn y cyfamser, mae 'rheolaethau' ar gyfer y risgiau hyn wedi cael eu hystyried wrth bennu'r Safonau a nodir isod.

I Y boblogaeth ac adnabod achosion

Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol allu dangos y canlynol:

- Nod a rennir ar gyfer grwpiau penodol o'r boblogaeth (e.e. pobl hŷn > 75 oed) yn seiliedig ar eu hasesiadau o anghenion y boblogaeth;

³ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014: rhan 9 canllawiau statudol \(trefniadau partneriaeth\)](#)

- Canlyniadau poblogaeth y cytunwyd arnynt y maent yn anelu ar y cyd i'w cyflawni a dangosyddion canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y boblogaeth honno (e.e. llesiant ac annibyniaeth);
- Sicrhau buddiannau ar gyfer y system iechyd a gofal integredig ranbarthol ar gyfer y boblogaeth honno;
- Canlyniadau lefel system y maent yn anelu ar y cyd i'w cyflawni a dangosyddion canlyniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer y system e.e. rheoli galw am ofal hirdymor a'r system gofal brys a gofal mewn argyfwng
- Systemau gofal seiliedig ar le 'lleol' diffiniedig e.e. clystyrau / clystyrau cyfan a phwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r uchelgais rhanbarthol a'r nod a rennir ar gyfer y boblogaeth honno gyda'u partneriaid awdurdod lleol.
- Cynllunio ymyriadau a gwasanaethau ar y cyd a fydd yn helpu i gyflawni'r canlyniadau ar gyfer y boblogaeth a'r system h.y. Cynllun Cyflawni / Rhaglen;
- Prosesau ar y cyd i fonitro eu dangosyddion canlyniadau ar lefel y boblogaeth a'r system;

Dylai clystyrau a'u partneriaid awdurdod lleol allu dangos y canlynol:

- Bod carfan a nodwyd o'r boblogaeth yn cael ei rheoli'n rhagweihol o fewn y 'system ofal seiliedig ar le' ddiffiniedig e.e. y garfan 'risg uchel' (0.5% uchaf) neu 'risg gynyddol' (DS dylai hyn gyd-fynd â'r carfannau poblogaeth a'r uchelgais a rennir ar gyfer y boblogaeth a nodwyd gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol);
- Cynllun comisiynu a chyflawni ar y cyd (e.e. Cynllun Clwstwr Cyfan) sy'n amlinellu'r cymorth a'r ymyriadau amlbroffesiynol perthnasol a roddir ar waith dros amser;
- Prosesau i fesur a monitro gwelliannau ar lefel gwasanaeth / llwybr a'u heffaith ar y system (dangosyddion canlyniadau system);
- Eu bod wedi defnyddio tystiolaeth i flaenoriaethu'r adnoddau a ddyrennir er mwyn gwella canlyniadau i'r eithaf i bobl a'r system iechyd a gofal;
- Eu bod wedi defnyddio adnoddau cydnabyddedig er mwyn helpu i nodi achosion e.e. bydd yr ail fersiwn o'r mynegai eiddilwch cymhleth (eFI)⁴ yn golygu y gellir segmentu'r boblogaeth a gwahaniaethu eiddilwch a'r risg o ganlyniadau gwael.
- Dilysu'r boblogaeth sydd wedi'i segmentu yn glinigol gan ddefnyddio adnoddau cydnabyddedig fel Graddfa Eiddilwch Clinigol Rockwood⁵ a haenu'r boblogaeth sydd wedi'i segmentu.
- Dadansoddiad o setiau data eu system ar gyfer gofal sydd heb ei gynllunio a nodi'r bobl a'r carfannau hynny o'r boblogaeth sydd ag anghenion amrywiol a allai elwa o gymorth amlbroffesiynol rhagweithiol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lliniaru unrhyw waethgiad yn eu hanghenion
- Nodi carfannau o'r boblogaeth sydd wedi'u cysoni â phenderfyniadau ehangach iechyd sy'n gwneud i eiddilwch / clefydau ddirywio'n gynharach e.e. grwpiau

⁴ eFI

⁵ Graddfa Eiddilwch Rockwood

anghydraddoldeb iechy, economaidd-gymdeithasol a lle bo hynny'n briodol, hwyluso dulliau gofal rhagweithiol sy'n canolbwyntio ar y poblogaethau hyn.

Mae carfannau poblogaeth enghreifftiol ar gael yn Atodiad Dau

II. Asesu cyfannol

Er mwyn darparu gofal mwy rhagweithiol, mae'n hollbwysig bod gweithwyr proffesiynol cymunedol yn gweithio gyda phobl a'u gofaluwr di-dâl i ddeall yr ystod lawn o anghenion iechyd, cymdeithasol a hunanofal, gan ddefnyddio asesiad cyfannol sy'n seiliedig ar egwyddorion gwneud penderfyniadau ar y cyd⁶.

Dylai clystyrau / clystyrau cyfan a phartneriaid awdurdod lleol allu dangos:

- Defnydd priodol o adnoddau asesu cyfannol seiliedig ar dystiolaeth e.e. Asesiad Geriatrig Cynhwysfawr⁷ Asesiad Cymesur ac Integredig⁸ Fframwaith Gofal Iechyd Parhaus (GIP)⁹;
- Bod asesiadau ar gael i bawb sy'n darparu gofal i'r unigolyn (yn absenoldeb Cofnod Electronig a Rennir, trefniadau y cytunwyd arnynt i rannu gwybodaeth yn gymesur);
- Bod asesiadau'n cael eu cynnal mor aml ag y pennir yn ystod yr asesiad neu pan fydd cyflwr yr unigolyn yn golygu bod angen ei adolygu;

III. Cynllunio gofal ar gyfer y dyfodol

Yn dilyn yr asesiad cyfannol, caiff Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol ei lunio ar y cyd â'r unigolyn a'r bobl sy'n bwysig iddo, er enghraifft, teulu, ffrindiau a / neu ofaluwr di-dâl a, lle bo hynny'n briodol, eiriolwr annibynnol.

Dylai Partneriaethau Rhanbarthol ddangos: (yn absenoldeb Cofnod Electronig a Rennir Cymru Gyfan, adnoddau / templed a chronfa ar gyfer Cynlluniau Gofal ar gyfer y Dyfodol):

- Datrysiad rhanbarthol er mwyn gwreiddio trefniadau Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol a'i egwyddorion cysylltiedig (a amlinellir yn Atodiad Dau). Dylai'r datrysiad ystyried y canlynol:
 - Adnoddau / templed rhanbarthol o ran Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol;
 - Sut / ble y caiff Cynlluniau Gofal ar gyfer y Dyfodol eu cadw yn y rhanbarth fel bod pob cynllun a dogfennaeth gysylltiedig ar gael i bawb sy'n darparu gofal wedi'i gynllunio / gofal heb ei gynllunio i'r unigolyn a rhag ofn y bydd ymyriad brys y tu allan i oriau (gan gynnwys Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru)

⁶ <https://www.nice.org.uk/about/what-we-do/our-programmes/nice-guidance/nice-guidelines/shared-decision-making>

⁷ Asesiad Geriatrig Cynhwysfawr

⁸ Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

⁹ Fframwaith GIP

IV. Gwaith amlbroffesiynol; Parhad a chydgysylltu

NID yw'r gydran hon yn argymhell gwasanaeth newydd. Mae'n cydnabod bod gwaith amlbroffesiynol¹⁰ (e.e. timau adnoddau cymunedol) yn digwydd yn barod ledled Cymru a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu gofal 'cofleidiol' ar gyfer y grŵp hwn o'r boblogaeth. Mae'r gydran hon wedi'i chynnwys i gydnabod y cyfrifoldeb sydd gan waith amlbroffesiynol o ran monitro a rheoli gofal rhagweithiol fel rhan greiddiol o'i swyddogaeth, er mwyn helpu i nodi anghenion brys neu newydd yn gynnar ymhlith carfannau a nodwyd yr ystyrir eu bod yn wynebu 'risg gynyddol' neu 'risg uchel'.

Mae **parhad gofal** yn gydran greiddiol o ofal rhagweithiol effeithiol. Gellid ei ddiffinio fel y gydberthynas barhaus rhwng unigolyn â'i dîm gwaith amlbroffesiynol neu aelod o'r tîm hwnnw i sicrhau bod gofal yn cael ei gydgyssylltu a bod yr unigolyn yn symud rhwng gwahanol rannau o'r system yn hwylus mewn ffordd gyson er mwyn cyflawni'r dymuniadau a nodwyd ganddo yn y Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol.

Mae parhad gofal yn golygu bod modd darparu gofal personol, yn gwella ansawdd gofal, yn cynyddu hyder unigolyn mewn penderfyniadau amlbroffesiynol, ac yn rhoi mwy o foddhad swydd i weithwyr ieuchyd a gofal proffesiynol. Yn gyffredinol, mae angen i atebolrwydd ar gyfer pobl sy'n cael gofal rhagweithiol fod yn glir. Gall hyn gynnwys unrhyw aelod o'r Tîm Amlbroffesiynol sy'n gyfrifol am oruchwylio llesiant yr unigolyn. Fel arfer, y '**Rheolwr Achos**' yw'r un sy'n rhyngweithio'n rheolaidd neu'n fwyaf rheolaidd â'r unigolyn ac sy'n gyfrifol am arwain y gwaith o gydgyssylltu a datblygu Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol a phenderfynu pryd y dylid adolygu'r Cynllun.

Yn achos salwch aciwt, meddyg teulu'r unigolyn ddylai fod yn atebol bob amser am reoli ei anghenion clinigol yn y gymuned. Gallai eithriadau yn hyn o beth gynnwys cytundebau lleol ffurfiol rhwng meddyg teulu'r unigolyn a phersonél meddygol sy'n rhan o'r ddarpariaeth Gofal Cymunedol Uwch¹¹. Dylai cytundebau ffurfiol o'r fath gael eu hategu gan Weithdrefnau Gweithredu Safonol sy'n amlinellu trefniadau llywodraethu clinigol i fodloni gofynion diogelwch, clinigol a chyfreithiol.

Dylai'r unigolyn fod yn ymwybodol bob amser o pryd y dylai ei Gynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol gael ei adolygu a sut y gall drefnu adolygiad cynharach os yw o'r farn bod ei amgylchiadau wedi newid i'r fath raddau fel bod adolygiad cynharach yn briodol yn ei farn ef.

Dylai'r broses o **gydgysylltu gofal** ar gyfer oedolion sy'n byw gydag anghenion cymhleth gael ei hwyluso drwy un pwynt cyswllt yn y gymuned sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth integredig. Mae cydgysylltu effeithiol yn helpu unigolion i lywio'r system ieuchyd a gofal pan fydd pryder ganddynt neu pan fydd eu hanghenion yn cynyddu neu ar frys gan roi mynediad i'r wybodaeth, y cyngor a'r cymorth mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r egwyddorion a'r safonau ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chymorth integredig ar gyfer y boblogaeth hon wedi'u hamlinellu [YMA](#).

¹⁰ MPW Framework here

¹¹ Gofal Cymunedol Uwch

Dylai prosesau cydgysylltu gofal gael eu hategu hefyd gan waith monitro rhagweithiol rhithiwr fel rhan hanfodol o Ofal a Alluogir gan Dechnoleg¹².

Dylai rhanbarthau (a / neu glystyrau ar lefel Clwstwr Cyfan / Awdurdod Lleol) allu dangos y canlynol:

- Bod prosesau rheoli gofal rhagweithiol ar waith ar gyfer llwyth achosion diffiniedig yn eu 'system ofal seiliedig ar le' gan dimau amlbroffesiynol presennol sy'n darparu gofal ar gyfer y grŵp hwn o'r boblogaeth;
- Bod prosesau 'rheoli achosion' yn sicrhau gofal wedi'i bersonoli, dull cynhwysfawr o asesu, cynllunio a rheoli anghenion gofal cyfannol yn ddi-dor (gan gynnwys cydgysylltu gofal a pharhad gofal)
- Bod trefniadau 'cydgysylltu gofal' yn golygu y gellir trefnu a rhannu gwybodaeth yn gymesur rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau gofal parhaus a diogel. Ystyrir bod y trefniadau hyn yn rhan allweddol o wybodaeth, cyngor a chymorth integredig er mwyn cynnal adolygiadau a gynlluniwyd ac ymyriadau, rheoli anghenion cynyddol / brys yn y gymuned a chydgyssylltu prosesau i ryddhau cleifion o'r ysbyty;
- Bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn gweithio tuag at un system gydgysylltu integredig ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel clwstwr cyfan / awdurdod lleol er mwyn helpu i gyfeirio cleifion yn effeithlon ac yn effeithiol at ofal 'camu i fyny' a 'chamu i lawr' yn y gymuned;
- Bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn cydweithio i integreiddio gofal a alluogir gan dechnoleg (teleofal a theleiechyd) â dull iechyd a gofal cymdeithasol rhagweithiol ar lefel clwstwr cyfan / awdurdod lleol. Cydnabyddir bod angen ystyried hyn yn nhermau'r arbedion effeithlonrwydd posibl a gyflawnir drwy ddarparu ar lefel ranbarthol. ([Fframwaith TEC ar gyfer System Gofal Cymunedol Integredig i Bobl Hŷn sy'n byw gydag anghenion cymhleth](#));

4.0 Gwelliant Parhaus: Canlyniadau a Mesurau a Awgrymir

	Canlyniad disgwyliedig	Dangosyddion canlyniadau	Mesur
Poblogaeth	Mae'r boblogaeth yn cael cymorth i gadw mor iach ac annibynnol â phosibl yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain	Diwrnodau Iach Gartref / Annibyniaeth yn y Cartref Procsi: 'Annibyniaeth yn y cartref' Derbyniadau brys i'r ysbyty	Diwrnodau Iach Gartref Dangosyddion Ansawdd Bywyd

¹² Darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a alluogir gan dechnoleg; Beth yw llwyddiant Wrthi'n cael ei ddatblygu

			% y derbyniadau brys gydag hyd arhosiad > 21 diwrnod Hyd arhosiad mewn cartref gofal
System	Mwy o gydnerthedd yn y system	Galw am ofal hirdymor yn cael ei reoli'n effeithiol Galw brys yn y gymuned yn cael ei reoli'n effeithiol Galw am gymorth ar ôl rhyddhau yn cael ei reoli'n effeithiol	Nifer y bobl sy'n cael Gofal cymdeithasol / trefniant ar y cyd / gofal iechyd parhaus fesul 100k o'r boblogaeth Nifer y bobl sy'n aros am Ofal cymdeithasol / trefniant ar y cyd / gofal iechyd parhaus fesul 100k o'r boblogaeth Nifer y derbyniadau brys > 75 oed Oedi o ran POCD Cyfraddau aildderbyn % y bobl a gaiff eu hatgyfeirio at Ofal Cymunedol Uwch a chymorth Adsefydlu o'r Gymuned (fel dewis amgen diogel i'w derbyn i'r ysbity)

Mesurau gwella (proses)

Adnabod Achosion	Nifer y bobl a nodir mewn carfan benodol e.e. 0.5% uchaf
Asesu cyfannol a chynllunio gofal ar gyfer y dyfodol	% y garfan sydd wedi cael cynnig asesiad a chynllun gofal ar gyfer y dyfodol (dylai'r ffigur fod yn 100%) % y garfan sydd wedi cael adolygiadau o feddyginiaethau
Gwaith amlbroffesiynol; Parhad a chydgyssylltu	Nifer y bobl sy'n cael eu gweld ac sy'n cael ymweliad gan nyrsys cymunedol Gwaith ar benwythnosau gan nyrsys cymunedol Nifer yr atgyfeiriadau at ofal cymunedol uwch, ffynhonnell yr atgyfeiriad a'i ganlyniad Niferoedd sy'n cael eu hatgyfeirio at gymorth ailalluogi Cyfraddau aildderbyn

Atodiad Un

Carfannau Poblogaeth Enghreifftiol

- Preswylwyr agored i niwed sy'n hysbys i'r gwasanaethau gofal cymdeithasol fel preswylwyr cartrefi gofal neu'r rhai ag anghenion gofal a chymorth mynych / uchel sy'n byw gartref (fel dangosydd procsi o unigolion eiddil eithriadol / eithriadol iawn);
- Pobl sy'n byw gydag anghenion cymhleth ac amrywiol o ganlyniad i gyflwr cynyddol hirdymor e.e. salwch cardiaidd a / neu anadlol, dementia, Parkinsons ac sy'n dueddol o waethygu;
- Pobl sy'n byw gyda 4 cyflwr cronig neu fwy ac sydd ag anghenion cymhleth o ganlyniad i amlafiachedd / amlgyffuriaeth;
- Segmentu'r gofrestr Gofal Sylfaenol gyda risgiau wedi'u hasesu a'u haenu gan dîm amlbroffesiynol;
- Pobl sy'n defnyddio gofal sylfaenol yn rheolaidd, neu bobl sy'n cael eu haildderbyn i ofal aciwt yn annisgwyl o fewn 30 diwrnod ar ôl iddynt gael eu rhyddhau;
- Pobl hyn sy'n gaeth i'w cartrefi ac y mae angen ymweliadau arnynt gan Nyrs Gofrestredig / Nyrs Ardal. Pobl sydd wedi'u cysylltu â Gofal a Alluogir gan Dechnoleg (TEC) a pha mor aml y maent yn defnyddio eu larymau.

Gallai systemau hefyd ystyried poblogaethau â rhyngweithiadau mynych iawn ar draws iechyd a gofal cymdeithasol ac a allai gael budd o ofal rhagweithiol. Mae'r rhyngweithiadau hyn yn debygol o gynnwys:

- Adolygiadau cyflwr unigol blynyddol mewn gofal sylfaenol
- Rhyngweithiadau gofal heb eu trefnu â gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol;
- Rhyddhau cleifion o'r ysbyty
- Llwythi achosion Gofal Cymunedol Uwch
- Gwasanaethau ymateb cymunedol brys (Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwylans Cymru, Canolfannau Derbyn Larymau TEC)
- Asesiadau gofalwyr di-dâl
- Cais am gynnydd mewn gofal hirdymor am nad yw'r pecyn gofal a chymorth presennol yn diwallu eu hanghenion mwyach
- Cyswllt mynych â threfniadau gwybodaeth, cyngor a chymorth yr awdurdod lleol yn gofyn am gymorth
- Ymweliadau mynych ag Adrannau Achosion Brys

Atodiad Dau

Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru

Diffiniad

Mae Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yn rhoi cyfle i unigolyn weithio gyda gweithwyr ieuchyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i ystyried beth sy'n bwysig iddo yn nhermau ei lesiant ac ystyried ei ddymuniadau ar gyfer unrhyw ofal neu gymorth y gallai fod eu hangen arno yn y dyfodol, yng nghyd-destun ei gyflwr, ei amgylchiadau a'i opsiynau.

Mae Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yn berthnasol i bob cam mewn bywyd, gan gynnwys i'r rhai y gall fod ganddynt lai o alluedd pan gaiff gwybodaeth ei chasglu, ac y dylid dilyn dull lles pennaf mewn perthynas â nhw. Gallai allbynnau sgysiau ar Gynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol gynnwys cynllun neu ddogfen arall sy'n nodi dewisiadau'r unigolyn o ran natur, math a lleoliad gwasanaethau o'r fath a gallent gynnwys trafodaethau ynghylch triniaeth feddygol unigolyn a safbwyntiau ynghylch pa fath o ofal diwedd oes y gallai ei gael. Pan gaiff y trafodaethau a'r penderfyniadau eu cofnodi, dylid eu rhannu â gofalwyr, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sy'n darparu gofal. Nid yw allbynnau o'r fath yn cynnwys penderfyniadau cyfrwymol ond yn hytrach maent yn helpu i lywio penderfyniadau am driniaeth a gofal yng nghyd-destun arfarnu'n realistig beth sy'n bosibl o dan yr amgylchiadau perthnasol. Gallant helpu i sicrhau dull 'dim penderfyniadau amdanaf i, hebddda i' ar bob adeg, gan gynnwys pan fo amgylchiadau'n newid, neu pan fo'r unigolyn, neu'r rhai sy'n agos iddo, yn teimlo bod angen adolygiad.

Egwyddorion arfaethedig ar gyfer Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru

Cafodd egwyddorion dylunio Cymru lachach a'r dimensiynau ansawdd a amlinellir yng Nghanolllawiau Statudol y Ddyletswydd Ansawdd (Llywodraeth Cymru, 2023) eu hystyried wrth benderfynu ar egwyddorion lefel uchel ar gyfer Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yng Nghymru. Yr egwyddorion hyn yw:

Personol a Diogel

- Mae ein dull yn cydymffurfio â gofynion proffesiynol a statudol (rheoliadol) ac mae dinasyddion o'r farn ei fod yn beth gwerthfawr i'w wneud;
- Mae'n annog ac yn cefnogi pobl i rannu beth sy'n bwysig iddynt yn nhermau eu lesiant a chyfrannu'n weithredol at drafodaethau a phenderfyniadau amserol am driniaeth a gofal nawr ac yn y dyfodol.
- Mae penderfyniadau am driniaeth a gofal nawr ac yn y dyfodol yn ystyried yr opsiynau triniaeth neu ofal sydd ar gael yr ystyrir sydd orau i gyflawni'r nodau a'r dewisiadau a fynegwyd ganddynt
- Cydymffurfio â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'i Chod Ymarfer cysylltiedig

Hygyrch

- Bydd dinasyddion yn deall bod Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yn bwysig er mwyn sicrhau bod cofnod o'r hyn sy'n bwysig iddynt ar gael a'i fod yn cael ei rannu â'u hanwyliaid, gofalmwr di-dâl a gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol fel eu bod yn cael yr wybodaeth, y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu nodau a'u dymuniadau.
- Dylai'r Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol fod yn hawdd ei ddeall a dylai templeddi fod yn hawdd eu defnyddio.
- Dylai templeddi y Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol fabwysiadu dull 'unwaith i Gymru'
- Mae templeddi cynllunio yn cynnwys gwybodaeth am lesiant cyffredinol a materion clinigol, cyfreithiol ac ariannol
- Mae cofnod clir o gynllun wrth gefn, trefniadau risg a threfniadau ar gyfer cynyddu triniaeth, lle bo'r rhain yn berthnasol

Ar gael

- Dylai gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol gynnig cymorth i bob dinesydd (DS 'oedolion cymwys') mewn perthynas â'r Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol ar bob cyfle priodol;
- Dylai'r cynllun gael ei adolygu gyda'r dinesydd yn ystod pob cyswllt gan weithiwr proffesiynol sy'n rhan o'i ofal neu ar gais y dinesydd ei hun
- Dylai'r cynllun gael ei gadw mewn man sy'n hygyrch bob amser i'r unigolyn, ei deulu / gofalmwr di-dâl, gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol a gweithwyr gofal.

Amserol

- Mae meddwl i'r dyfodol am beth sy'n bwysig imi yn berthnasol ar unrhyw oedran neu gam mewn bywyd. Fodd bynnag, gallai llunio Cynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol fod yn arbennig o fuddiol ar adeg pan fo iechyd a llesiant yn newid neu wedi newid o ganlyniad i broblemau iechyd corfforol a / neu iechyd meddwl neu'n debygol o waethygu yn dilyn diagnosis.
- Rhaid i gynlluniau gofal gael eu hadolygu'n rheolaidd gan gynnwys os bydd cyflwr iechyd neu os bydd sefyllfa gymdeithasol yr unigolyn yn newid neu os bydd yn awyddus i'w gynllun gael ei adolygu.
- Cytunir ar ddyddiadau adolygu yn ystod y cam trafod a chynllunio cychwynnol a dylid cynnal adolygiad unwaith y flwyddyn o leiaf.

- Gallai unigolion a allai gael budd o Gynllun Gofal ar gyfer y Dyfodol gynnwys:
 - y rhai sy'n byw gydag un cyflwr iechyd hirdymor neu fwy, y rhai sy'n byw gydag anableddau a / neu anghenion iechyd a gofal cymhleth ac amrywiol (gan gynnwys eiddilwch a phlant a phobl ifanc â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd) sy'n nesáu at ddiwedd eu hoes

Uchelgais Arfaethedig

Yn unol â Cymru Iachach a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), **byddwn ni** (darparwyr, gweithwyr proffesiynol, ymarferwyr, comisiynwyr a chynllunwyr iechyd a gofal) yn datblygu dull Unwaith i Gymru sy'n sicrhau hawliau a rheolaeth bywyd bob dydd i ddinasyddion. Byddwn yn gwneud hyn drwy fabwysiadu dull seiliedig ar werthoedd / beth sy'n bwysig mewn perthynas â llesiant a rhagweld anghenion iechyd a gofal cynyddol drwy gynnig cymorth i ddinasyddion Gynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol.

Erbyn 'Dyddiad i'w gadarnhau...': **Byddaf i** (poblogaeth Cymru) yn deall pam mae Cynllunio Gofal ar gyfer y Dyfodol yn bwysig imi er mwyn imi allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig imi a chyflawni fy nodau llesiant a dymuniadau drwy gydol fy oes ac ar ddiwedd fy oes.

Byddaf yn gwybod sut i gael cymorth i gydlynio neu adolygu fy Nghynllun gyda'r gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol sy'n fy adnabod orau fel y gallaf rannu fy nymuniadau, credoau a gwerthoedd. Byddaf hefyd yn gwybod â phwy y gallaf rannu fy Nghynllun er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am fy llesiant, gofal a thriniaeth yn y dyfodol yn cael eu hystyried yn unol â'r dymuniadau a amlinellir yn y Cynllun.